Bridgend County Borough Council

# Ysgol Gynradd Coety

## Dogfen Ymgynghori

Cynnig i wneud newid rheoleiddiedig i Ysgol Gynradd Coety, Ffordd yr Hebog, Coety, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 6DH drwy ehangu'r ysgol o ddau ddosbarth mynediad i 2.5 dosbarth mynediad, i ddod i rym o fis Ionawr 2025

**Dyddiad cyhoeddi**: 12 Rhagfyr 2022

**Gweithred sy'n ofynnol:** 25 Ionawr 2023

**Ffôn**: (01656) 643643

**E-bost**: consultation@bridgend.gov.uk

**Y we:** www.bridgend.gov.uk/consultation

## Cynnwys

Trosolwg ........ 4
Sut i ymateb ........ 4
Cyfarfodydd Ymgynghori ........ 4
Diogelu Data ........ 5
Dogfennau cysylltiedig ........ 5
Cefndir a gwybodaeth ........ 6
Ysgol Gynradd Coety – Lle yr ydym ar hyn o bryd ........ 6
Y cynnig ........ 7
Cyflwr yr adeilad ac ôl –groniad o waith cynnal a chadw ar yr ysgol bresennol ........ 8
Pam mae'r cynnig hwn wedi cael ei gyflwyno? ........ 8
Yr hyn y mae'r cynnig yn ei olygu'n ymarferol ........ 9
Y Corff Llywodraethu ........ 9
Staffio ........ 9
Darpariaeth Feithrin ........ 10
Beth fydd y manteision os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen? ........ 10
Beth fydd yr anfanteision posibl os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen? ........ 10
Effaith y cynigion ........ 11
Safonau (safonau a chynnydd cyffredinol, grwpiau penodol ac mewn sgiliau); lles ac agweddau at ddysgu ........ 11
Addysgu a phrofiadau dysgu, ansawdd yr addysgu, ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm, a'r ddarpariaeth sgiliau ........ 11
Gofal, cymorth ac arweiniad (olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a diogelu) ........ 11
Arweinyddiaeth a rheolaeth (ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau, dysgu proffesiynol, a'r defnydd o adnoddau) ........ 13
Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) ........ 13
Ystyriaethau Eraill ........ 16
Trefniadau teithio a'r effaith ar hygyrchedd ........ 16
Asesiadau Effaith ........ 16
Asesiad Effaith ar y Gymuned ........ 17
Asesiad Effaith ar y Gymraeg ........ 17
Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ........ 17

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ................ 17
Risgiau ................ 18
Dewisiadau eraill ................ 19
Manylion yr ysgol(ion) yr effeithir arnynt ................ 19
Rhagamcanion o boblogaeth disgyblion ................ 22
Tir ac Adeiladau ................ 30
Cyllid ................ 31
Y Broses Ymgynghori ................ 32
Beth sydd raid i chi ei ystyried yn awr? ................ 33
Sut ydych chi i fynegi eich barn? ................ 33
Profforma ................ 34
Atodiad 1 – Adroddiadau Estyn ................ 37
Atodiad 2 – Rhestr y Rhanddeiliaid ................ 66

## Trosolwg

Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw gwahodd barn ynghylch cynnig i wneud newid rheoleiddiedig i Ysgol Gynradd Coety, Ffordd Yr Hebog, Coety, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 6DH drwy ehangu'r ysgol o 2 ddosbarth mynediad i 2.5 dosbarth mynediad, i ddod i rym ym mis Ionawr 2025.

## Sut i ymateb

Bydd y cyfnod ymgynghori hwn yn dechrau ar **12 Rhagfyr 2022** ac yn cau ar **25 Ionawr 2023.**

Cewch ymateb ar y profforma sydd wedi ei chynnwys (gweler tudalen 34 y ddogfen hon) neu ar-lein, a gofyn cwestiynau pellach yn y ffyrdd canlynol:

**Ffôn:** (01656) 643 643

**E-bost:** edsu@bridgend.gov.uk

**Ar-lein:** www.bridgend.gov.uk/consultation

**Post:** Anfonwch ymateb profforma (gweler tudalen 34 y ddogfen hon) i Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd – Uned Gymorth y Gyfarwyddiaeth (EDSU), Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

Mae fformatau gwahanol hefyd ar gael ar gais. Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn Gymraeg.

## Cyfarfodydd Ymgynghori

Cynhelir cyfarfodydd ymgynghori yn bersonol ac yn rhithiol drwy gyfrwng Timau Microsoft. Mae'r awdurdod lleol yn gofyn i'r rheiny sy'n dymuno bod yn bresennol yn y cyfarfod agored ar **16 Ionawr 2023** gofrestru eu presenoldeb ymlaen llaw. Mae croeso i chi siarad yn Gymraeg yn y cyfarfod, gadewch inni wybod ymlaen llaw drwy anfon e-bost at: michelle.smith@bridgend.gov.uk neu drwy ffonio: 01656 815135, os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Mae'r cyfarfodydd ymgynghori canlynol wedi cael eu trefnu:

| Dyddiad | Amser | Pwy | Canolfan |
|---|---|---|---|
| Dydd Mawrth, 10 Ionawr 2023 | 5:30p.m. – 6:30p.m. | Llywodraethwyr yr Ysgol | Rhithiol drwy gyfrwng TIMAU |
| Dydd Iau, 12 Ionawr 2023 | 2:45p.m. – 3:30p.m. | Cyngor yr ysgol / disgyblion | Ysgol Gynradd Coety |
| Dydd Iau, 12 Ionawr 2023 | 3:40p.m. – 4:40p.m. | Staff yr Ysgol | Ysgol Gynradd Coety |
| Dydd Iau, 12 Ionawr 2023 | 6:15p.m. – 7:15p.m. | Cyngor Cymuned Coety Uchaf | Rhithiol drwy gyfrwng TIMAU |
| Dydd Llun, 16 Ionawr 2023 | 5.30p.m. – 6.30p.m. | Agored – y rhai sy'n bwriadu bod yn bresennol i gofrestru ymlaen llaw | Rhithiol drwy gyfrwng TIMAU |

## Diogelu Data

### Sut byddwn ni'n defnyddio'r safbwyntiau a'r wybodaeth y byddwch yn ei rhannu â ni:

Bydd yr holl ymatebion a dderbynnir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu gweld yn llawn gan aelodau ei staff sy'n ymwneud â'r broses ymgynghori. Gall adrannau eraill o'r cyngor hefyd neu aelodau'r bwrdd gwasanaethau lleol weld y wybodaeth er mwyn bod o gymorth i wella'r gwasanaethau a ddarperir.

Efallai y bydd y cyngor hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i gyhoeddi dogfennau dilynol sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â'r ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, ni fydd y Cyngor byth yn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol megis enwau neu gyfeiriadau a allai ei gwneud yn bosibl adnabod unigolyn.

Os nad ydych yn dymuno i'ch barn gael ei chyhoeddi, nodwch hynny yn eich ymateb, os gwelwch yn dda.

## Dogfennau cysylltiedig

Am ragor o wybodaeth ynghylch ymgynghoriadau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr neu sut i ymuno â phanel ein Dinasyddion

**Ymwelwch â:** www.bridgend.gov.uk/consultation

## Cefndir a gwybodaeth

Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw gwahodd eich barn ynghylch y cynnig i wneud newid rheoleiddiedig i Ysgol Gynradd Coety, Ffordd Yr Hebog, Coety, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 6DH drwy ehangu'r ysgol o 2 ddosbarth mynediad i 2.5 dosbarth mynediad (sef lle i 525 o ddisgyblion a nifer derbyn cyhoeddedig o 75). O ganlyniad i'r datblygiad a thrwy gymysgu grwpiau blwyddyn, bydd cyfle hefyd i gynyddu'r ddarpariaeth feithrin gyda 12 o leoedd llawn amser ychwanegol yn y feithrinfa. Mae hyn yn golygu y bydd 84 o leoedd meithrin cyfwerth ag amser llawn.

Rydym yn ymgynghori ac yn gofyn am farn llawer o randdeiliaid (am restr lawn gweler atodiad 2). Bydd y broses ymgynghori hon yn rhedeg o 12 Rhagfyr 2022 hyd 25 Ionawr 2023.

## Ysgol Gynradd Coety – Lle yr ydym ar hyn o bryd

Mae Ysgol Gynradd Coety yn ysgol gynradd gymunedol gyfrwng Saesneg, wedi ei lleoli ar 3.67 acer o dir yn Ffordd Yr Hebog, Parc Derwen ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae'n darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed. Arwynebedd mewnol gros yr ysgol yw 2622.5 metr sgwâr. Nifer y disgyblion sy'n cael mynediad (PAN) ar hyn o bryd yw 60.

Agorodd yr ysgol gynradd ddau lawr ym mis Tachwedd 2015 ac fe'i cyflawnwyd drwy Fand A o Raglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru a Rhaglen Moderneiddio Ysgolion CBSP. Mae'r ysgol yn cynnwys un adeilad o ffrâm ddur adeileddol. Mae tu allan yr adeilad wedi ei orchuddio ag amrywiaeth o ddeunyddiau, ond yn bennaf wedi'i orffen â brics, neu gladin sinc o dan amrywiaeth o doeau alwminiwm ar ongl gyda rhai rhannau gwastad. Mae'r ffenestri a'r drysau yn alwminiwm â gorchudd powdr. Y tu allan, mae maes parcio tarmac a meysydd chwarae, ynghyd â man chwarae meddal mawr. Yn ogystal â'r ysgol, mae'r cyfleusterau'n cynnwys adeilad cymunedol integredig bychan ac ystafelloedd newid cymunedol. Mae'r ysgol hefyd yn cael defnyddio'r caeau chwarae cyfagos a'r cae 4G.


Tybir bod yr ysgol wedi'i graddio'n “A” o ran addasrwydd a digonolrwydd, gyda gradd ei chyflwr cyffredinol yn “B”.

## Y cynnig

Mae'r cynnig hwn yn ymwneud ag ehangu Ysgol Gynradd Coety i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.

Byddai capasiti’r ysgol yn cynyddu o 420 o leoedd i 525 o leoedd ar gyfer plant 3 i 11 oed, hynny yw, 2.5 dosbarth mynediad. Ar hyn o bryd mae 76 o leoedd meithrin CALl yn yr ysgol ac o ganlyniad i’r datblygiad a thrwy gymysgu grwpiau blwyddyn, bydd cyfle hefyd i gynyddu’r ddarpariaeth feithrin gyda 12 o leoedd meithrin llawn amser ychwanegol. Mae hyn yn golygu y bydd gan y feithrinfa 75 o leoedd CALl, gyda 9 o leoedd rhan-amser CALl, gan ddarparu cyfanswm o 84 o leoedd meithrin CALl. Cynigir y gellid cyflawni’r cynnydd yng nghapasiti’r ysgol drwy ddarparu estyniad pedair ystafell ddosbarth a mannau ategol cysylltiedig.

Mae dalgylch Ysgol Gynradd Coety wedi ei amlinellu mewn pinc yn y map isod. Mae’r ysgol wedi ei lleoli yn Ffordd yr Hebog, Coety, Pen-y-bont ar Ogwr, CF35 6DH.



Bydd yr estyniad newydd arfaethedig yn cwrdd â Strategaeth Ddatgarboneiddio Pen-y-bont ar Ogwr 2030 ac wedi cael ei ddylunio gan ddefnyddio egwyddorion Carbon Sero Net. Byddai'r ystafelloedd dosbarth yn agor i ddisgyblion ym mis Ionawr 2025.

## Cyflwr yr adeilad ac ôl –groniad o waith cynnal a chadw ar yr ysgol bresennol

Graddiwyd Ysgol Gynradd Coety fel cyflwr B yn 2021 (boddhaol). Yn 2021, adroddwyd bod ôl-groniad cynnal a chadw o £185,700 yn yr ysgol.

## Pam mae'r cynnig hwn wedi cael ei gyflwyno?

Ar 3 Mawrth 2015, cafwyd cymeradwyaeth y cabinet i'r cyngor fabwysiadu egwyddorion diwygiedig fel fframwaith ar gyfer trefniadaeth ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr; gosodwyd pump egwyddor allweddol i lywio trefniadaeth a moderneiddio ein hysgolion:

i Ymrwymiad i safonau uchel a rhagoriaeth yn y ddarpariaeth.
ii Cyfle cyfartal, fel bod pob disgybl yn gallu cael mynediad at gyfleoedd dysgu o safon, waeth pa ysgol y mae'n ei mynychu.
iii Ysgolion cynhwysol, sy'n darparu ar gyfer anghenion dysgu eu holl ddisgyblion.
iv Ysgolion bro, lle mae'r ysgol yn ymroi i ymgysylltu â'r gymuned leol.
v Gwerth am arian.

Mae'r Fframwaith Polisi a Chynllunio yn nodi 17 maes lle dylid rhoi'r egwyddorion ar waith yn ymarferol.

Defnyddiwyd y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) 16 mabwysiedig, a oedd yn berthnasol yn ystod y cam cynllunio ar gyfer yr ysgol, i gyfrifo maint y ddarpariaeth oedd yn ofynnol. Ers hynny mae cyfraddau'r disgyblion o ddatblygiadau tai newydd wedi cael eu hadolygu, sydd wedi dangos cyfradd uwch o gymharu â'r CCA 16 blaenorol. Ers hynny mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r cyfraddau disgyblion diwygiedig. Hefyd yn awr, mae 1577 o dai ychwanegol i gael eu hadeiladu ym Mharc Derwen erbyn diwedd 2022/2023, sydd ychydig yn fwy na'r hyn a amcangyfrifwyd ar gyfer y safle yn nyraniad y Cynllun Datblygu Lleol. Ym mis Ebrill 2022, roedd 71 o'r 1577 o dai yn weddill yn y cam olaf, ac roedd 59 o'r rhain wrthi'n cael eu codi. Cynhelir arolwg nesaf y safle ar ddiwedd mis Mawrth 2023.

Mae'r cyngor wedi cyflwyno'r cynnig hwn i ehangu Ysgol Gynradd Coety er mwyn cwrdd â’r galw am leoedd i ddisgyblion

## Yr hyn y mae’r cynnig yn ei olygu’n ymarferol

Nod y cynnig yw mynd i'r afael â phroblemau capasiti yn Ysgol Gynradd Coety drwy ddarparu estyniad pedair ystafell ddosbarth. Bydd maint yr ysgol yn cynyddu i 2.5 dosbarth mynediad, hynny yw, 525 o leoedd disgyblion a nifer derbyn cyhoeddedig o 75. O ganlyniad i’r datblygiad a thrwy gymysgu grwpiau blwyddyn, bydd cyfle hefyd i gynyddu’r ddarpariaeth feithrin o 72 i 84 o leoedd cyfwerth â llawn amser. Mae hyn yn golygu y bydd gan y feithrinfa 75 o leoedd llawn amser, gyda 9 o leoedd rhan-amser CALl.

## Y Corff Llywodraethu

Mae aelodaeth corff llywodraethu ysgol wedi'i nodi yn offeryn llywodraethu'r ysgol benodol, y mae'n rhaid iddo fod yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Mae'r rheoliadau hynny'n pennu nifer y llywodraethwyr ym mhob categori (hynny yw, rhiant lywodraethwyr, llywodraethwyr awdurdod lleol, athrawon lywodraethwyr, staff lywodraethwyr a llywodraethwyr cymunedol).

Mae’r offeryn llywodraethu ar gyfer Ysgol Gynradd Coety eisoes yn adlewyrchu uchafswm nifer y llywodraethwyr o bob categori a ganiateir o dan y rheoliadau ar gyfer ysgol gynradd sydd â mwy na 100 o ddisgyblion cofrestredig. Yn unol â hynny, ni ellir cynyddu nifer y llywodraethwyr ym mhob categori pe bai'r ysgol yn dod yn ddarpariaeth 2.5 dosbarth mynediad.

## Staffio

Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai nifer y staff yn debygol o gynyddu dros gyfnod o amser. Byddai'r gofynion staffio yn cyd-fynd â'r cynnydd ym mhoblogaeth yr ysgol. Y corff llywodraethu fyddai'n gyfrifol am y strwythur staffio a fyddai'n cael ei bennu'n bennaf gan anghenion addysgol yr ysgol a'r gyllideb fyddai ar gael.

## Darpariaeth Feithrin

Mae'r galw am leoedd meithrin yn Ysgol Gynradd Coety ar hyn o bryd yn fwy na chapasiti'r ysgol ac mae gormod o ofyn am leoedd meithrin. Os nad oes lle meithrin ar gael yn Ysgol Gynradd Coety, efallai y bydd rhai rhieni yn dewis gosod eu plant gyda darparwr blynyddoedd cynnar cofrestredig arall. Efallai y bydd yr estyniad pedair ystafell ddosbarth yn cael effaith ar niferoedd disgyblion y ddarpariaeth. Fodd bynnag, o ystyried nifer y tai sy'n cael eu hadeiladu a'r gor-alw presennol, byddai'r effaith yn gymharol isel.

Bydd lle yn y feithrinfa i 12 o leoedd meithrin amser llawn ychwanegol. Mae hyn yn golygu y bydd gan y feithrinfa 75 o leoedd CALl, gyda 9 o leoedd rhan-amser CALl, gan ddarparu cyfanswm o 84 o leoedd meithrin CALl.

Ni fydd y cynnig yn effeithio ar ofal y plant a ddarperir yn yr ysgol, ac eithrio o bosibl gynyddu'r galw am leoedd. Nid yw'r newidiadau'n ddigon sylweddol i effeithio ar y ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar, heblaw am fod mewn sefyllfa i gynnig mwy o leoedd addysg yn yr ysgol, a allai effeithio ychydig ar y galw yn y lleoliad gofal plant a ariennir, nas cynhelir, fwyaf lleol.

## Beth fydd y manteision os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen?

- Cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion o 120 o leoedd disgyblion drwy adeiladu estyniad pedwar dosbarth.
- Darparu lle cylchredeg gan gynnwys toiledau, ystafelloedd cotiau, dwy storfa glanhawyr a phedair ystafell ddosbarth.
- Cae chwarae estynedig i gymryd lle'r rhan y bydd yr estyniad yn ei gymryd ac i ddarparu gofod ychwanegol ar gyfer y nifer cynyddol o ddisgyblion. Bydd y lle chwarae ychwanegol y gellir ei greu yn ddigon i gynnwys cwrt pêl-fasged / pêl-rwyd newydd a fydd yn nes at faint y rheoliadau na'r cwrt presennol.
- Ystafell athrawon fwy o faint, os bydd angen.

## Beth fydd yr anfanteision posibl os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen?

- Mae perygl y bydd y cynnig yn peri i rieni ddewis addysg gyfrwng Saesneg a pheidio ag ystyried addysg gyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

- Effaith lefel uwch o draffig yn teithio i ac o'r ysgol, oherwydd cynnydd yn nifer y disgyblion. Bydd gweithredu a hyrwyddo cynllun teithio i'r ysgol yn gymorth i liniaru’r cynnydd yn y traffig ac yn annog dulliau gwahanol o deithio.
- Mae peth aflonyddwch i’w ddisgwyl yn ystod y gwaith o adeiladu'r estyniad pedair ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, dengys profiad y gellir cadw hyn i'r lleiafswm drwy weithio'n agos gyda'r pennaeth, llywodraethwyr a staff a thrwy gynllunio'r rhaglen o amgylch anghenion yr ysgol.

## Effaith y cynigion

### Safonau (safonau a chynnydd cyffredinol, grwpiau penodol ac mewn sgiliau); lles ac agweddau at ddysgu

Mae’r disgyblion yn gwneud cynnydd ar draws yr ysgol, o un garfan i’r llall ac yn ystod y flwyddyn ysgol ym mhob agwedd o’r cwricwlwm, yn briodol i’w hoedran a’u man cychwyn. Mae’r disgyblion yn cymhwyso eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i sefyllfaoedd newydd, y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae’r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i gymryd cyfrifoldebau a rolau arwain, ac mae eu barn yn llywio penderfyniadau sy’n effeithio arnynt. Mae’r disgyblion yn ymroi’n rhwydd i’w dysgu a chwblhau tasgau, gan ddangos mwynhad yn eu dysgu. Mae’r disgyblion yn arddangos ymddygiad da iawn o fewn ac o gwmpas yr ysgol.

Mae’r ysgol wedi dangos hanes cryf o wella safonau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a byddai’r disgyblion, fyddai’n ymuno â’r ysgol o dan y cynnydd arfaethedig yng nghapasiti’r ysgol, yn elwa o’r safonau ar draws yr ysgol a lefel y disgwyliadau.

### Addysgu a phrofiadau dysgu (ansawdd yr addysgu, ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm, a’r ddarpariaeth sgiliau

Mae profiadau dysgu ar draws yr ysgol yn ysgogi a herio’r ystod lawn o ddisgyblion. Mae’r ysgol wedi datblygu cwricwlwm sy’n darparu profiadau dysgu o ehangder a

dyfnder addas ar draws yr holl ddisgyblaethau a meysydd profiad dysgu i ddatblygu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion, gan adeiladu ar ddysgu blaenorol i sicrhau dilyniant wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cyfathrebu Cymraeg.

Mae'r ysgol wedi parhau i ddatblygu'r prosesau asesu o fewn yr ysgol i alinio ag egwyddorion dilyniant ar gyfer y cwricwlwm ysgol newydd, gan sicrhau y gellir adnabod disgyblion sydd angen cymorth neu her ychwanegol. Mae'r prosesau asesu hefyd yn sicrhau y gellir olrhain cynnydd disgyblion drwy ystod gynhwysfawr o wybodaeth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu ac asesu yn briodol ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn nifer y lleoedd yn yr ysgol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad (olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a diogelu)

Mae'r ysgol yn cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol yr holl ddisgyblion fel y gallant ymgysylltu'n gadarnhaol â darpariaeth yr ysgol ac elwa ar y cyfleoedd a ddarperir. Mae'r ysgol yn darparu cymorth a ystyriwyd yn dda i'r holl ddisgyblion ac yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion y nodwyd bod arnynt angen cymorth ychwanegol. Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol i sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn effeithiol ac yn rhoi gwerth am arian.

Mae darpariaeth yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o sut y maent yn ymwneud â'r gymuned leol a'r byd ehangach, tra hefyd yn meithrin gwerthoedd a rennir ac archwilio materion modern. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch a lles.

Mae gan yr ysgol arweinyddiaeth gref a phrosesau fyddai'n galluogi'r ysgol i gefnogi'n effeithiol y niferoedd cynyddol o ddisgyblion o ganlyniad i ddatblygiad pellach arfaethedig yr ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth (ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau, dysgu proffesiynol, a'r defnydd o adnoddau)

Mae arweinwyr yr ysgol, y llywodraethwyr a'r staff wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer datblygiad parhaus yr ysgol, gweithredu cwricwlwm newydd a gwella deilliannau ar gyfer pob disgybl. Mae gan yr ysgol brosesau hunanarfarnu cynhwysfawr a thrylwyr sy'n cael eu hadlewyrchu'n gywir yng nghynlluniau strategol yr ysgol a chynlluniau datblygu meysydd dysgu. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu'r arweinyddiaeth wasgaredig ar draws yr ysgol, gan gefnogi'r capasiti arwain cyffredinol, gyda'r holl arweinwyr yn gallu dangos dealltwriaeth dda iawn o'r heriau yn eu maes eu hunain a'r ysgol gyfan. Mae arweinwyr yr ysgol yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff a disgyblion, gan hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol i ddiwylliant yr ysgol. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf.

Mae gan yr ysgol ffocws cryf ar ddatblygiad pob un o'r staff trwy ddysgu proffesiynol effeithiol i wella'r gallu i arwain, a darpariaeth ystafell ddosbarth a lles ar gyfer pob disgybl, gan gydweithio'n effeithiol ag ysgolion a darparwyr eraill i ddatblygu ymarfer proffesiynol. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r ysgol a'r adnoddau ariannol yn dda, gan alinio gwariant â blaenoriaethau datblygu'r ysgol ac anghenion disgyblion.

Mae gan yr ysgol y capasiti arweiniol i reoli datblygiad pellach pwrpasol safle'r ysgol yn effeithiol o dan y cynnig presennol. Mae crynodeb o adroddiadau arolygu diweddaraf Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) yn ymwneud â'r ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt, wedi cael eu cynnwys yn atodiad 1. Mae'r adroddiadau arolygu llawn ar gael ar wefan Estyn: www.estyn.gov.wales

## Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)

Y CSCA yw strategaeth yr awdurdod lleol sy'n gosod y ffordd y mae'n anelu at hwyluso cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg o fewn y fwrdeistref sirol.

Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddatblygu cynlluniau i beri twf y Gymraeg yn strategol a gyda chynllunio strategol effeithiol ei nod yw cyfrannu'n sylweddol i gyflawni gweledigaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru.

Gellir gweld CSCA deng mlynedd yr awdurdod lleol am y cyfnod o 2022 hyd 2032 Drwy ddilyn y ddolen isod:

Y fersiwn Gymraeg:
https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/cydraddoldeb-ac-ymgysylltu/y-gymraeg/

Y fersiwn Saesneg:
https://www.bridgend.gov.uk/my-council/equalities-and-engagement/welsh-language

Mae Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y Cyngor yn adlewyrchu ymrwymiadau'r Cyngor yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae darpariaeth gynradd gyfrwng Cymraeg newydd wedi ei chynllunio i'w darparu o fewn pum mlynedd gyntaf y CSCA (sef ysgol yn lle Ysgol y Ferch o'r Sgêr yng ngorllewin y fwrdeistref sirol ac ysgol newydd yn lle Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yng ngogledd-ddwyrain y fwrdeistref sirol).

Mae'r awdurdod lleol yn nodi bod addysg gyfrwng Cymraeg yn dod yn fwyfwy poblogaidd ac wedi gweld twf sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cynnig hwn yn creu lleoedd cyfrwng Saesneg ychwanegol yn y dalgylch ac efallai na fydd rhieni disgyblion yn yr ardal hon, a all fod ar hyn o bryd yn ystyried addysg gyfrwng Cymraeg, oherwydd yr anhawster o gael lle i'w plentyn yn Ysgol Gynradd Coety oherwydd bod gormod o blant eisiau mynd i'r ysgol, yn ystyried hyn mwyach. Mae hyn oherwydd bod y siawns iddynt sicrhau lle yn yr ysgol yn cynyddu gan y cynigir cynyddu'r PAN o 60 i 75, gan olygu 15 mwy o leoedd ym mhob grŵp blwyddyn.

Ar sail y dewis cyntaf o ysgol ym mis Medi 2022, pe na bai lle ar gael yn Ysgol Gynradd Coety, byddai 11% yn dewis addysg gyfrwng Cymraeg, 8% yn dewis ysgol ffydd ac 81% yn dewis ysgol gyfrwng Saesneg arall.

Er mwyn cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg i gefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, CSGA yr awdurdod lleol ac i ddarparu adeilad ysgol newydd ar gyfer yr 21ain ganrif i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd,

cyflwynodd y cyngor gynnig i adeiladu ysgol newydd yn lle Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Yn ddiweddar, adroddwyd am ganlyniad y broses statudol yn hyn o beth wrth y Cabinet a derbyniwyd cymeradwyaeth i symud ymlaen gyda'r cynllun. Bydd yr ysgol newydd wedi cael ei dylunio i ddarparu ar gyfer 525 o ddisgyblion 4-11 oed, 90 o blant meithrin CALl a dosbarth arsylwi ac asesu 8 lle, ac mae wedi ei rhaglennu i agor ar ddechrau tymor yr hydref 2025. Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth Gymraeg gan y bydd y prosiect yn sicrhau cynnydd yn y lleoedd i ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Rhagwelir y bydd y nifer fydd yn manteisio ar addysg gyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn cynyddu o ganlyniad i'r cynnig, a thrwy hynny gefnogi targedau CSGA yr awdurdod lleol, hyrwyddo'r Gymraeg a chynyddu nifer y plant meithrin nas cynhelir sy'n trosglwyddo i addysg gynradd gyfrwng Cymraeg.

Drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf y mae Ysgol Gynradd Coety yn addysgu. Mae'r safonau uchel a gyflawnir yn y Gymraeg yn yr ysgol yn cyfrannu at ymrwymiadau'r Cyngor i annog cynnydd yn nifer y siaradwyr dwyieithog.

Mae Ysgol Gynradd Coety yn cynnig cyfleoedd i staff addysgu, staff cymorth, rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach i ddysgu Cymraeg fel ail iaith drwy ddarparu dosbarthiadau Cymraeg i oedolion a hwylusir gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol De Cymru. At hynny, mae'r ysgol yn cydweithio gyda'r Urdd i ddarparu clwb chwaraeon ar ôl yr ysgol, a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nod yr awdurdod lleol yw sefydlu arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg drwy gynllunio bwriadol i hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn yr ysgol a thu allan iddi. Mae Ysgol Gynradd Coety ar hyn o bryd yn cefnogi'r nod hon drwy ddefnyddio Cymraeg yn achlysurol drwy gydol y dydd a thrwy ddefnyddio mentrau fel "Helpwr Heddiw" a "Seren yr Wythnos". Bydd yr ysgol yn parhau i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac i annog staff, rhieni a'r gymuned ehangach i gymryd rhan yn y dosbarthiadau Cymraeg a'r grwpiau Cymraeg sydd ar gael yn yr ysgol.

## Ystyriaethau Eraill

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fyddai'r awdurdod derbyn ar gyfer yr Ysgol newydd arfaethedig. Byddai'r trefniadau derbyn yn unol â'r manylion ym mhrosbectws y cyngor, - 'Prosbectws Dechrau Ysgol – Canllaw i Bolisi a Threfniadau Derbyn Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer ysgolion':

Y fersiwn Gymraeg:

https://www.bridgend.gov.uk/media/11959/2022-2023-prosbectws-dechrau-yn-yr-ysgol-v10.pdf

Y fersiwn Saesneg:

https://www.bridgend.gov.uk/media/11958/2022-2023-starting-school-prospectus-v10.pdf

Y Nifer Derbyn Cyhoeddedig ar gyfer Ysgol Gynradd Coety, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, fydd 75.

## Trefniadau teithio a'r effaith ar hygyrchedd

Yn unol â'r Polisi Cartref i'r Ysgol/Coleg, bydd disgyblion oed cynradd sy'n mynychu eu hysgol gynradd agosaf yn cael cludiant am ddim os ydynt yn byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol a bydd disgyblion meithrin amser llawn yn gymwys i gael cludiant am ddim os ydynt yn byw 1.5 milltir neu fwy. Mae'r pellteroedd yn seiliedig ar gerdded a'r llwybrau diogel sydd ar gael.

Gellir gweld y Polisi Cartref-i'r-Ysgol/Coleg drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

https://www.bridgend.gov.uk/media/5632/home-to-school-or-college-transport-policy-v2.pdf

Mae Ysgol Gynradd Coety wedi ei lleoli yn natblygiad tai Parc Derwen, a rhagwelir y gallai'r plant hynny sydd ar hyn o bryd yn byw yn union o amgylch yr ysgol ddal i gerdded i'r Ysgol pe bai'r cynnig yn cael ei symud ymlaen.

## Asesiadau Effaith

Fel yr eglurir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol cyhoeddi Asesiadau Effaith ar y Gymuned, y Gymraeg a Chydraddoldeb. Mae'r rhain wedi cael eu llunio fel atodiad i'r ddogfen hon ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.

## Asesiad Effaith ar y Gymuned

Mae asesiad effaith cymunedol cychwynnol wedi'i gynnal a byddem yn croesawu eich sylwadau a'ch barn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn p’un a ydych yn ystyried y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ynteu niweidiol.

Canlyniad yr asesiad cychwynnol yw y rhagwelir, ar ôl cwblhau'r adeiladau ysgol newydd arfaethedig, effaith gadarnhaol o ganlyniad i ddarparu cyfleusterau modern, hygyrch.

Mae’r asesiad cychwynnol i’w weld yn atodiad A.

## Asesiad Effaith ar y Gymraeg

Mae asesiad effaith cychwynnol ar y Gymraeg wedi'i gynnal a byddem yn croesawu eich sylwadau a'ch barn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn p’un a ydych yn ystyried y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ynteu niweidiol.

Mae’r cynnig hwn yn creu lleoedd cyfrwng Saesneg ychwanegol yn y dalgylch ac efallai na fydd rhieni disgyblion yn yr ardal hon, a all fod ar hyn o bryd yn ystyried addysg gyfrwng Cymraeg, oherwydd yr anhawster o gael lle i’w plentyn yn Ysgol Gynradd Coety oherwydd bod gormod o blant eisiau mynd i’r ysgol, yn ystyried hyn mwyach. Mae hyn oherwydd bod y siawns iddynt sicrhau lle yn yr ysgol yn cynyddu gan y cynigir cynyddu’r PAN o 60 i 75, gan olygu 15 mwy o leoedd ym mhob grŵp blwyddyn.

Mae’r asesiad cychwynnol i’w weld yn atodiad B.

## Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Mae asesiad effaith cychwynnol ar gydraddoldeb wedi'i gynnal a byddem yn croesawu eich sylwadau a'ch barn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn p’un a ydych yn ystyried y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ynteu niweidiol.

Fel rhan o'r broses gyffredinol, mae dyletswydd ar y cyngor i ystyried goblygiadau unrhyw gynnig ar bob aelod o'r gymuned leol a allai ddioddef effaith annheg o ganlyniad i weithredu'r cynnig. Mae asesiad llawn wedi ei gynnal o’r effaith ar gydraddoldeb a nodwyd bod y cynnig hwn yn creu lleoedd cyfrwng Saesneg

ychwanegol yn y dalgylch ac efallai na fydd rhieni disgyblion yn yr ardal hon, a all fod ar hyn o bryd yn ystyried addysg gyfrwng Cymraeg, oherwydd yr anhawster o gael lle i'w plentyn yn Ysgol Gynradd Coety oherwydd bod gormod o blant eisiau mynd i'r ysgol, yn ystyried hyn mwyach. Nodwyd effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys anabledd a rhyw.

Os oes gennych unrhyw farn ar botensial y cynnig hwn i effeithio ar unrhyw grwpiau neu unigolion naill ai'n gadarnhaol neu'n niweidiol, yna byddem yn croesawu eich sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Gellir gweld y sgrinio yn atodiad C.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae'r cynnig yn debygol o fod o fudd i blant a phobl ifanc yn unol â 7 nod graidd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sef:

- Cael dechrau teg mewn bywyd;
- Cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
- Yr iechyd gorau posibl, yn rhydd o gamdriniaeth, erledigaeth a chamfanteisio;
- Cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliant;
- Cael gwrandawiad, cael eu trin â pharch a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
- Cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol;
- Dim dan anfantais oherwydd tlodi.

## Risgiau

Manylir ar y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig a'r mesuriadau yn eu herbyn isod:

| Risg | Mesur yn erbyn |
|---|---|
| Gwrthwynebiadau i'r cynnig | Cyfathrebu amserol effeithiol â'r holl randdeiliaid |
| Mae costau'r cynllun yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael. | Cyfathrebu effeithiol a monitro'r gyllideb yn rheolaidd drwy gydol y prosiect |
| Cost y gwaith seilwaith priffyrdd fydd yn angenrheidiol sy'n anhysbys ar hyn o bryd | Comisiynu asesiad trafnidiaeth yn fuan i lywio'r gyllideb ar gyfer gwaith priffyrdd angenrheidiol |

## Dewisiadau eraill

Ystyriwyd dewisiadau eraill gwahanol i'r hyn a gynigiwyd. Isod ceir nifer o ddewisiadau, ynghyd â'r rhesymau pam nad oedd y rhain yn cael eu ffafrio:

- **Gwneud dim**
  Nid yw'r dewis hwn yn cyd-fynd â pholisi'r awdurdod lleol ar gyfer sicrhau digon o leoedd i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (Heb ei ystyried).

- **Dewis 1** – **Estyniad dwy ystafell ddosbarth**
  Nid yw'r dewis hwn yn cynyddu nifer y lleoedd yn ddigonol.

- **Dewis 2** – **Estyniad pedair ystafell ddosbarth**
  Ystyriwyd mai hwn oedd y dewis gorau.

- **Dewis 3** – **Dwy ystafell ddosbarth symudadwy**
  Ni ddatblygwyd y dewis hwn gan mai dim ond am ddwy flynedd y byddai'r ystafell ddosbarth dros dro yn cael eu cymeradwyo mewn perthynas â Rheoliadau Adeiladu a phum mlynedd o ran caniatâd cynllunio. Rhywbeth dros dro yw'r defnydd o ystafell ddosbarth symudadwy ac ni fyddai'n cyflawni'r strategaeth ddatgarboneiddio.

## Manylion yr ysgol(ion) yr effeithir arnynt

Nodwyd yr ysgolion cymunedol canlynol fel rhai y mae'r cynnig yn debygol o gael effaith uniongyrchol arnynt:

| Enw a chyfeiriad yr ysgol | Math | Rheswm dros yr effaith | Iaith | Ystod oedran |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Coety, Ffordd Yr Hebog, Coety, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 6DH | Cymunedol | Ehangu arfaethedig | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |

Mae'r ysgolion cymunedol canlynol yn yr ardal o amgylch. Er na fydd y cynnig yn cael effaith uniongyrchol arnynt, mae'n bosibl y bydd y cynnig yn effeithio'n anuniongyrchol ar rai, o bosibl fel canlyniad i'r rhieni yn mynegi dewis o ran yr ysgol sydd orau ganddynt ar gyfer eu plant:

| Enw a chyfeiriad yr ysgol | Math | Iaith | Ystod oedran |
|---|---|---|---|
| **CYNRADD** | | | |
| Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru<br>Lôn Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF31 2JS | Gwirfoddol a gynorthwyir | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Bracla<br>Lôn Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF31 2EZ | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Llangrallo<br>Y Brif Ffordd, Llangrallo<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF35 5HN | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Croesty<br>69 Heol Llangrallo<br>Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF35 5LY | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Llidiard<br>Rhodfa Garfield,<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF31 1QB | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Pencoed<br>Heol Penprysg, Pencoed<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF35 6RH | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Pen-y-bont<br>Stryd Minerva,<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF31 1TD | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Tremaen<br>Channel View,<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF31 2NL | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair<br>Heol Llangewydd, Cefn Glas<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF31 4JW | Gwirfoddol a gynorthwyir | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gymraeg Bro Ogwr<br>Lôn y Dywysoges,<br>Bracla<br>CF31 2LN | Cymunedol | Cyfrwng Cymraeg | 3-11 |
| **UWCHRADD** | | | |
| Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath<br>Lôn y Dderwen | Ysgol Uwchradd a gynorthwyir | Cyfrwng Saesneg | 11-18 |

| Enw a chyfeiriad yr ysgol | Math | Iaith | Ystod oedran |
|---|---|---|---|
| Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF32 9AB | | | |
| Ysgol Brynteg<br>Heol Ewenni, Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF31 3ER | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | |
| Ysgol Gyfun Pencoed<br>Heol Llangrallo<br>Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF35 5LZ | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 11-18 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg<br>Llangynwyd, Maesteg<br>CF34 9RW | Cymunedol | Cyfrwng Cymraeg | 11-18 |

Rhydd y tabl isod fanylion y niferoedd ar y gofrestr ym mis Ionawr 2022 ym mhob un o'r ysgolion a'r niferoedd a gofnodwyd ar gyfer y pedwar cyfrifiad blynyddol blaenorol.

| | **Ion 2022** | | **Ion 2021** | | **Ion 2020** | | **Ion 2019** | | **Ion 2018** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | LlA | Rh-a | LlA | Rh-a | LlA | Rh-a | LlA | Rh-a | LlA | Rh-a |
| **Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru** | 137 | 7 | 156 | 8 | 165 | 3 | 184 | 6 | 198 | 2 |
| **Ysgol Gynradd Bracla** | 329 | 10 | 335 | 10 | 333 | 10 | 338 | 6 | 325 | 12 |
| **Ysgol Gynradd Coety** | 464 | 12 | 460 | 15 | 443 | 20 | 430 | 19 | 401 | 18 |
| **Ysgol Gynradd Llangrallo** | 149 | 0 | 152 | 0 | 151 | 2 | 147 | 4 | 144 | 7 |
| **Ysgol Gynradd Croesty** | 203 | 0 | 213 | 3 | 220 | 5 | 223 | 7 | 217 | 5 |
| **Ysgol Gynradd Llidiard** | 484 | 20 | 506 | 0 | 470 | 17 | 448 | 15 | 443 | 15 |
| **Ysgol Gynradd Pencoed** | 605 | 0 | 610 | 0 | 596 | 0 | 583 | 14 | 575 | 10 |
| **Ysgol Gynradd Pen-y-bont** | 336 | 6 | 258 | 0 | 344 | 10 | 359 | 7 | 360 | 9 |
| **Ysgol Gynradd Tremaen** | 455 | 6 | 459 | 15 | 457 | 1 | 466 | 17 | 472 | 22 |
| **Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair** | 261 | 0 | 255 | 0 | 259 | 0 | 231 | 5 | 249 | 4 |
| **Ysgol Gymraeg Bro Ogwr** | 393 | 8 | 402 | 0 | 397 | 10 | 423 | 1 | 433 | 7 |

| | Ion 2022 | | Ion 2021 | | Ion 2020 | | Ion 2019 | | Ion 2018 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath** | 876 | 0 | 876 | 0 | 879 | 0 | 830 | 0 | 800 | 0 |
| **Ysgol Brynteg** | 1551 | 0 | 1469 | 0 | 1404 | 0 | 1441 | 0 | 1412 | 0 |
| **Ysgol Gyfun Pencoed** | 877 | 0 | 900 | 0 | 901 | 0 | 889 | 0 | 888 | 0 |
| **Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd** | 683 | 0 | 657 | 0 | 622 | 0 | 613 | 0 | 623 | 0 |

## Rhagamcanion o boblogaeth disgyblion

Rhydd y tablau canlynol ragamcanion 5-mlynedd o boblogaeth disgyblion:

**Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru**

| Blwyddyn | M1 | M2 | R | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm yn cynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2022 | 0 | 18 | 13 | 19 | 14 | 20 | 21 | 24 | 31 | 160 | 163 |
| Ion 2023 | 4 | 15 | 18 | 12 | 20 | 14 | 20 | 21 | 25 | 149 | 150 |
| Ion 2024 | 4 | 15 | 15 | 17 | 12 | 19 | 14 | 19 | 22 | 137 | 137 |
| Ion 2025 | 4 | 15 | 15 | 14 | 17 | 12 | 19 | 13 | 20 | 129 | 129 |
| Ion 2026 | 4 | 15 | 15 | 14 | 14 | 17 | 12 | 19 | 14 | 124 | 124 |
| Ion 2027 | 4 | 15 | 16 | 14 | 14 | 14 | 17 | 12 | 20 | 126 | 126 |

**Ysgol Gynradd Bracla**

| Blwyddyn | M1 | M2 | R | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Cyfanswm 2-11 | Cyfanswm yn cynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2022 | 10 | 40 | 43 | 43 | 43 | 42 | 36 | 40 | 42 | 339 | 339 |
| Ion 2023 | 9 | 43 | 40 | 40 | 46 | 41 | 43 | 37 | 40 | 339 | 339 |
| Ion 2024 | 9 | 43 | 45 | 38 | 42 | 43 | 42 | 45 | 37 | 344 | 344 |
| Ion 2025 | 9 | 43 | 43 | 43 | 40 | 40 | 45 | 43 | 45 | 351 | 351 |
| Ion 2026 | 9 | 43 | 43 | 41 | 45 | 38 | 41 | 46 | 44 | 350 | 350 |
| Ion 2027 | 9 | 43 | 43 | 41 | 43 | 43 | 39 | 43 | 46 | 350 | 350 |

**Ysgol Gynradd Coety**

| Blwyddyn | M1 | M2 | R | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Cyfanswm 2-11 | Cyfanswm yn cynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2022 | 12 | 60 | 60 | 59 | 58 | 60 | 59 | 55 | 53 | 476 | 525 |
| Ion 2023 | 18 | 59 | 118 | 61 | 57 | 59 | 61 | 58 | 56 | 547 | 596 |
| Ion 2024 | 18 | 59 | 114 | 119 | 58 | 58 | 60 | 59 | 58 | 603 | 652 |
| Ion 2025 | 18 | 59 | 117 | 115 | 114 | 59 | 58 | 59 | 60 | 659 | 708 |
| Ion 2026 | 18 | 59 | 107 | 118 | 111 | 117 | 60 | 57 | 59 | 706 | 755 |
| Ion 2027 | 18 | 59 | 114 | 108 | 113 | 113 | 118 | 59 | 58 | 760 | 809 |

**Ysgol Gynradd Llangrallo**

| Blwyddyn | M1 | M2 | R | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm yn cynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2022 | 0 | 18 | 17 | 18 | 18 | 19 | 20 | 21 | 18 | 149 | 159 |
| Ion 2023 | 2 | 18 | 18 | 16 | 18 | 18 | 18 | 21 | 19 | 148 | 163 |
| Ion 2024 | 2 | 18 | 18 | 17 | 16 | 18 | 17 | 19 | 19 | 144 | 159 |
| Ion 2025 | 2 | 18 | 18 | 17 | 17 | 16 | 17 | 18 | 18 | 141 | 156 |
| Ion 2026 | 2 | 18 | 18 | 17 | 17 | 17 | 16 | 18 | 17 | 140 | 155 |
| Ion 2027 | 2 | 18 | 18 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 140 | 155 |

**Ysgol Gynradd Croesty**

| Blwyddyn | M1 | M2 | R | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm yn cynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2022 | 0 | 28 | 16 | 22 | 19 | 28 | 29 | 30 | 31 | 203 | 203 |
| Ion 2023 | 6 | 19 | 21 | 17 | 22 | 19 | 27 | 29 | 31 | 191 | 191 |
| Ion 2024 | 6 | 20 | 21 | 22 | 17 | 22 | 19 | 27 | 30 | 184 | 184 |
| Ion 2025 | 6 | 20 | 20 | 22 | 23 | 17 | 22 | 19 | 29 | 178 | 178 |
| Ion 2026 | 6 | 20 | 20 | 21 | 23 | 23 | 17 | 22 | 20 | 172 | 172 |
| Ion 2027 | 6 | 20 | 21 | 21 | 22 | 23 | 22 | 17 | 23 | 175 | 175 |

**Ysgol Gynradd Llidiard**

| Blwyddyn | M1 | M2 | R | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Cyfanswm 2-11 | Cyfanswm yn cynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2022 | 20 | 60 | 60 | 57 | 60 | 60 | 65 | 67 | 55 | 504 | 504 |
| Ion 2023 | 20 | 58 | 67 | 59 | 57 | 64 | 49 | 68 | 68 | 510 | 510 |
| Ion 2024 | 21 | 59 | 67 | 66 | 59 | 60 | 49 | 68 | 69 | 518 | 518 |
| Ion 2025 | 21 | 59 | 69 | 66 | 66 | 62 | 49 | 68 | 69 | 529 | 529 |
| Ion 2026 | 21 | 59 | 60 | 68 | 66 | 70 | 49 | 68 | 69 | 530 | 530 |
| Ion 2027 | 21 | 59 | 66 | 59 | 68 | 70 | 49 | 68 | 69 | 529 | 529 |

**Ysgol Gynradd Pencoed**

| Blwyddyn | M1 | M2 | R | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Cyfanswm 2-11 | Cyfanswm yn cynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2022 | 0 | 66 | 74 | 77 | 61 | 80 | 84 | 75 | 88 | 605 | 610 |
| Ion 2023 | 4 | 66 | 66 | 78 | 78 | 62 | 81 | 85 | 76 | 596 | 610 |
| Ion 2024 | 1 | 69 | 83 | 69 | 78 | 79 | 62 | 82 | 86 | 609 | 623 |
| Ion 2025 | 1 | 69 | 90 | 87 | 70 | 79 | 79 | 63 | 82 | 620 | 634 |
| Ion 2026 | 1 | 69 | 69 | 95 | 88 | 71 | 80 | 80 | 63 | 616 | 630 |
| Ion 2027 | 1 | 69 | 77 | 72 | 95 | 89 | 71 | 81 | 81 | 636 | 650 |

**Ysgol Gynradd Pen-y-bont**

| Blwyddyn | M1 | M2 | R | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm yn cynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2022 | 6 | 43 | 42 | 39 | 43 | 42 | 44 | 43 | 40 | 342 | 342 |
| Ion 2023 | 10 | 37 | 35 | 42 | 41 | 42 | 42 | 51 | 43 | 343 | 343 |
| Ion 2024 | 11 | 38 | 37 | 35 | 44 | 39 | 42 | 51 | 50 | 347 | 347 |
| Ion 2025 | 11 | 38 | 38 | 37 | 37 | 43 | 40 | 51 | 50 | 345 | 345 |
| Ion 2026 | 11 | 38 | 38 | 38 | 39 | 36 | 43 | 51 | 50 | 344 | 344 |
| Ion 2027 | 11 | 38 | 37 | 38 | 40 | 38 | 36 | 51 | 50 | 339 | 339 |

**Ysgol Gynradd Tremaen**

| Blwyddyn | M1 | M2 | R | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm yn cynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2022 | 6 | 59 | 57 | 70 | 55 | 35 | 58 | 57 | 64 | 461 | 461 |
| Ion 2023 | 9 | 59 | 59 | 56 | 69 | 51 | 34 | 56 | 56 | 449 | 449 |
| Ion 2024 | 7 | 60 | 59 | 58 | 55 | 64 | 50 | 33 | 55 | 441 | 441 |
| Ion 2025 | 7 | 60 | 60 | 58 | 57 | 51 | 62 | 48 | 32 | 435 | 435 |
| Ion 2026 | 7 | 60 | 60 | 59 | 57 | 53 | 49 | 59 | 47 | 451 | 451 |
| Ion 2027 | 7 | 60 | 60 | 59 | 58 | 53 | 51 | 47 | 58 | 453 | 453 |

**Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair**

| Blwyddyn | M1 | M2 | R | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm yn cynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2022 | 0 | 28 | 29 | 32 | 30 | 30 | 39 | 41 | 32 | 261 | 266 |
| Ion 2023 | 2 | 28 | 29 | 31 | 33 | 32 | 32 | 38 | 43 | 268 | 270 |
| Ion 2024 | 2 | 29 | 28 | 31 | 32 | 35 | 33 | 31 | 40 | 261 | 262 |
| Ion 2025 | 2 | 29 | 29 | 30 | 32 | 33 | 37 | 33 | 33 | 258 | 258 |
| Ion 2026 | 2 | 29 | 29 | 31 | 31 | 33 | 35 | 36 | 34 | 260 | 260 |
| Ion 2027 | 2 | 29 | 29 | 31 | 32 | 32 | 35 | 35 | 38 | 263 | 263 |

**Ysgol Gymraeg Bro Ogwr**

| Blwyddyn | M1 | M2 | R | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm yn cynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2022 | 8 | 50 | 54 | 40 | 47 | 48 | 45 | 49 | 60 | 401 | 408 |
| Ion 2023 | 6 | 47 | 50 | 51 | 38 | 46 | 48 | 44 | 49 | 379 | 389 |
| Ion 2024 | 8 | 45 | 47 | 47 | 48 | 37 | 46 | 46 | 44 | 368 | 379 |
| Ion 2025 | 8 | 45 | 45 | 44 | 45 | 47 | 37 | 44 | 47 | 362 | 373 |
| Ion 2026 | 8 | 45 | 45 | 44 | 45 | 47 | 37 | 44 | 47 | 362 | 374 |
| Ion 2027 | 8 | 45 | 47 | 42 | 42 | 44 | 47 | 36 | 45 | 356 | 369 |

**Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath**

| Blwyddyn | Bl7 | Bl8 | Bl9 | Bl10 | Bl11 | Bl12 | Bl13 | Cyfanswm11-19 | Cyfanswm yn cynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2022 | 136 | 155 | 171 | 137 | 124 | 85 | 68 | 876 | 885 |
| Ion 2023 | 139 | 136 | 147 | 168 | 132 | 77 | 75 | 874 | 889 |
| Ion 2024 | 146 | 139 | 129 | 144 | 161 | 82 | 68 | 869 | 885 |
| Ion 2025 | 145 | 146 | 132 | 127 | 139 | 100 | 72 | 861 | 879 |
| Ion 2026 | 128 | 145 | 139 | 129 | 122 | 86 | 88 | 837 | 856 |
| Ion 2027 | 126 | 128 | 138 | 136 | 124 | 75 | 76 | 803 | 823 |

**Ysgol Brynteg**

| Blwyddyn | Bl7 | Bl8 | Bl9 | Bl10 | Bl11 | Bl12 | Bl13 | Cyfanswm11-19 | Cyfanswm yn cynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2022 | 290 | 228 | 231 | 276 | 199 | 173 | 154 | 1551 | 1552 |
| Ion 2023 | 262 | 293 | 230 | 231 | 270 | 139 | 149 | 1574 | 1576 |
| Ion 2024 | 270 | 265 | 296 | 230 | 226 | 189 | 120 | 1596 | 1598 |
| Ion 2025 | 262 | 273 | 267 | 296 | 226 | 158 | 163 | 1645 | 1647 |
| Ion 2026 | 247 | 265 | 275 | 267 | 290 | 158 | 136 | 1638 | 1640 |
| Ion 2027 | 264 | 249 | 267 | 275 | 262 | 203 | 136 | 1656 | 1658 |

**Ysgol Gyfun Pencoed**

| Blwyddyn | Bl7 | Bl8 | Bl9 | Bl10 | Bl11 | Bl12 | Bl13 | Cyfanswm11-19 | Cyfanswm yn cynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2022 | 158 | 140 | 149 | 142 | 135 | 90 | 62 | 876 | 917 |
| Ion 2023 | 153 | 156 | 140 | 150 | 135 | 76 | 71 | 882 | 931 |
| Ion 2024 | 142 | 151 | 156 | 141 | 143 | 76 | 60 | 870 | 919 |
| Ion 2025 | 150 | 141 | 151 | 158 | 134 | 80 | 60 | 874 | 924 |
| Ion 2026 | 145 | 149 | 141 | 153 | 150 | 75 | 65 | 877 | 927 |
| Ion 2027 | 120 | 144 | 149 | 142 | 145 | 84 | 65 | 848 | 898 |

**Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd**

| Blwyddyn | Bl7 | Bl8 | Bl9 | Bl10 | Bl11 | Bl12 | Bl13 | Cyfanswm11-19 | Cyfanswm yn cynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2022 | 130 | 110 | 120 | 105 | 100 | 63 | 55 | 683 | 693 |
| Ion 2023 | 133 | 127 | 108 | 116 | 104 | 59 | 50 | 697 | 712 |
| Ion 2024 | 114 | 130 | 125 | 105 | 115 | 61 | 47 | 697 | 713 |
| Ion 2025 | 102 | 112 | 128 | 121 | 104 | 68 | 48 | 683 | 700 |
| Ion 2026 | 96 | 100 | 128 | 124 | 120 | 61 | 54 | 683 | 701 |
| Ion 2027 | 101 | 94 | 109 | 124 | 123 | 71 | 48 | 670 | 689 |

Nid yw'r rhagamcanion a amlinellir uchod yn cynnwys y tai posibl yn y dyfodol a allai gael eu cynhyrchu gan safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl) CBS Pen-y-bont ar Ogwr (dim ond ar gyfer safleoedd CDLl presennol y mae'r rhagamcanion yn cyfrif).

## Tir ac Adeiladau

Mae'r tabl a ganlyn yn nodi capasiti'r ysgolion ac asesiad o ansawdd yr adeiladau, yn unol ag arolygon cyflwr adeiladau'r cyngor o'r ysgolion y nodwyd bod y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol arnynt. Cyfrifir y capasiti yn unol â Chylchlythyr Rhif 21/2011 Llywodraeth Cymru 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru'.

| Ysgol | Capasiti Meithrin | Capasiti Ysgol<br><br>Derbyn – Blwyddyn 6 | Ansawdd yr adeiladau |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis | 15 | 208 | Graddiad cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – perfformio yn ôl y bwriad ond yn dangos ychydig o ddirywiad) |
| Ysgol Gynradd Bracla | 85 | 330 | Graddiad cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – perfformio yn ôl y bwriad ond yn dangos ychydig o ddirywiad) |
| Ysgol Gynradd Coety | 72 | 416 | Graddiad cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – perfformio yn ôl y bwriad ond yn dangos ychydig o ddirywiad) |
| Ysgol Gynradd Llangrallo | 18 | 133 | Graddiad cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – perfformio yn ôl y bwriad ond yn dangos ychydig o ddirywiad) |
| Ysgol Gynradd Croesty | 28 | 205 | Graddiad cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Gynradd Llidiard | 84 | 485 | Graddiad cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Gynradd Pencoed | 66 | 510 | Graddiad cyflwr cyffredinol A (da; perfformio yn ôl y bwriad ac yn gweithredu'n effeithlon) |
| Ysgol Gynradd Pen-y-bont | 47 | 323 | Graddiad cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Gynradd Tremaen | 63 | 428 | Graddiad cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair | 42 | 220 | Graddiad cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gymraeg Bro Ogwr | 55 | 372 | Graddiad cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath | N/A | 836 | Graddiad cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – perfformio yn ôl y bwriad ond yn dangos ychydig o ddirywiad) |
| Ysgol Brynteg | Amh. | 2008 | Graddiad cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – perfformio yn ôl y bwriad ond yn dangos ychydig o ddirywiad) |
| Ysgol Gyfun Pencoed | Amh | 1115 | Graddiad cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd | Amh | 776 | Graddiad cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |

**Cyllid**

Ar hyn o bryd, amcangyfrifir mai cyfanswm cost y prosiect ar gyfer darparu'r estyniad pedair ystafell ddosbarth fydd £1.65 miliwn. Caiff y cynllun ei ariannu o adnoddau cyfalaf CBSP. Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i gytundeb a106 ar wahân mewn perthynas â thai ychwanegol yn yr ardal.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r cyllid fesul disgybl yn amrywio o ysgol i ysgol, gyda'r uchaf yn £6,820 a'r isaf yn £3,301 ar gyfer 2022 i 2023. Y cyllid cyfartalog fesul disgybl ysgol gynradd ar gyfer 2022 i 2023 yw £3,919. Y cyllid fesul disgybl yn Ysgol Gynradd Coety yw £3,336. Er bod ysgolion cynradd i gyd yn cael eu hariannu ar yr un sail a gwerthoedd, mae rhai elfennau sy'n benodol i ysgol unigol. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid ar gyfer dosbarthiadau arbennig, cynrychiolwyr undebau llafur, y Gymraeg ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Caiff cyllid ychwanegol ei ddarparu ar gyfer ysgol yr un maint ag Ysgol Gynradd Coety, gyda nifer o ddosbarthiadau anghenion dysgu ychwanegol. Ar gyfer ysgol lai gyda nifer lai o ddisgyblion, byddai'r cyllid fesul disgybl yn uwch gan fod llai o ddisgyblion i rannu'r gyllideb drostynt.

Bydd yr ehangu arfaethedig yn cynhyrchu costau refeniw ychwanegol. Mae hyn oherwydd y cynnydd yn arwynebedd y llawr drwy ddarparu ystafelloedd dosbarth ychwanegol a gofodau atodol. At hynny, bydd cynnydd yn nifer y disgyblion, fydd yn effeithio ar refeniw. Ni fydd unrhyw oblygiadau refeniw, gan gynnwys cynnydd yng nghyllideb ddirprwyedig yr ysgolion ar gyfer arwynebedd mwy yr adeiladau nac unrhyw gynnydd posibl yng nghostau cludiant yr ysgol, yn hysbys nes y bydd y cynllun wedi cael ei ddatblygu ymhellach.

## Y Broses Ymgynghori

Bydd y broses ymgynghori wedi'i chwblhau erbyn 25 Ionawr 2023 ac adroddir am y canlyniadau, fydd wedi cael eu hymgorffori yn y cynnig lle bo modd, wrth gyfarfod y cabinet ym mis Chwefror 2023. Ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau ffurfiol, ni all hyn ddigwydd ond yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol fel yr amlinellir isod. Os mai penderfyniad y cabinet fydd peidio â symud ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig hwn am y dyfodol rhagweladwy a bydd angen edrych am gynnig gwahanol.

Os mai’r penderfyniad fydd symud ymlaen, bydd angen cyhoeddi hysbysiad statudol yn amlinellu'r cynnig am gyfnod o 28 diwrnod a gwahoddir unrhyw wrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol yn ystod y cyfnod hwn. Os bydd gwrthwynebiadau yn ystod cam yr hysbysiad statudol, bydd angen i'r Cabinet ystyried y cynnig yng ngoleuni'r gwrthwynebiadau a wnaed. Yna gallai'r Cabinet dderbyn, gwrthod neu addasu'r cynnig. Os nad oes gwrthwynebiadau i'r cynnig, bydd angen i'r Cabinet benderfynu a ddylid symud ymlaen â'r cynnig.

## Y camau nesaf

Mae’r amserlen a’r weithdrefn dros dro fel a ganlyn:

| Gweithgaredd | Dyddiad |
|---|---|
| Cyfnod ymgynghori pan fyddwn yn croesawu eich barn a’ch sylwadau ar y cynnig*. | 12 Rhagfyr 2022 hyd 25 Ionawr 2023 |
| Y cabinet i ystyried yr adroddiad ymgynghori drafft, fydd yn manylu ar ganlyniad yr ymgynghoriad. | Chwefror 2023 |
| Cyhoeddi’r adroddiad ymgynghori cymeradwy ar wefan CBSP, copïau caled ar gael ar gais. | Chwefror 2023 |
| Os cytunir arno gan y cabinet, cyhoeddir hysbysiad statudol a bydd cyfnod o 28 diwrnod i gyflwyno unrhyw wrthwynebiadau i’r cynnig yn ysgrifenedig. | Chwefror 2023 |
| Os nad oes gwrthwynebiadau, gall y Cabinet benderfynu a ddylid symud ymlaen ai peidio. Os bydd gwrthwynebiadau, caiff adroddiad am y gwrthwynebiadau ei gyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried a gofynnir am gymeradwyaeth i gyhoeddi'r adroddiad, a phenderfynu ar ganlyniad y broses statudol. Yna caiff yr adroddiad cymeradwy ei gyhoeddi ar wefan CBSP a bydd copïau caled ar gael ar gais. Caiff | Ebrill/Mai 2023 |

| Gweithgaredd | Dyddiad |
|---|---|
| llythyr penderfyniad yn manylu ar gasgliad y broses i gyhoeddi a'i ddosbarthu i randdeiliaid. | |
| Gweithredu. | Ionawr 2025 |

*Sylwch, os gwelwch yn dda, na chaiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Ni ellir cofrestru gwrthwynebiadau ond yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol.

## Beth sydd raid i chi ei ystyried yn awr?

Gwahoddir chi i ystyried y cynnig a chyflwyno eich sylwadau p'un a ydych yn cefnogi'r cynnig ynteu ddim i wneud newid rheoleiddiedig i Ysgol Gynradd Coety, yn ffurf ehangu, yn Ffordd Yr Hebog, Coety, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 6DH i ddod i rym ym mis Ionawr 2025.

## Sut ydych chi i fynegi eich barn?

Os oes gennych gwestiynau pellach ynghylch y cynnig hwn, os ydych yn dymuno mynegi eich barn yn ysgrifenedig, awgrymu cynigion gwahanol neu ofyn am gopi o'r adroddiad ymgynghori pan gaiff ei gyhoeddi, cysylltwch â'r awdurdod lleol gan ddefnyddio'r profforma cysylltiedig neu:

**Post:** Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd – Uned Gymorth y Gyfarwyddiaeth (EDSU), Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

Nodwch ei fod i sylw EDSU, neu

**E-bost:** edsu@bridgend.gov.uk

**Ar-lein:** www.bridgend.gov.uk/consultation

**Ffôn:** (01656) 643643

Mae fformatau gwahanol ar gael ar gais. Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn Gymraeg.

Rhaid derbyn pob barn erbyn **25 Ionawr 2023** fan bellaf.

## Profforma

Cynnig i wneud newid rheoleiddiedig i Ysgol Gynradd Coety, Ffordd yr Hebog, Coety, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 6DH drwy ehangu'r ysgol o 2 ddosbarth mynediad i 2.5 dosbarth i ddod i rym ym mis Ionawr 2025.

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Manylion cyswllt: | |

Ydych chi'n un o'r canlynol (rhowch dic):

| | |
|---|---|
| Llywodraethwr ysgol | |
| Disgybl ysgol | |
| Rhiant/gwarcheidwad | |
| Staff yr ysgol | |
| Parti arall â diddordeb (dywedwch beth) | |

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig: **Ydw / Nac ydw**

Os nad ydych yn cefnogi'r cynnig – dywedwch pam, os gwelwch yn dda:

| |
|---|
| |

Sylwadau/awgrymiadau/ceisiadau/cwestiynau:

Os ydych yn dymuno awgrymu newidiadau neu ddewisiadau gwahanol i'r cynnig a gyflwynwyd, rhowch fanylion, os gwelwch yn dda**:**

| |
|---|
| |

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

Ydych chi'n teimlo y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ynteu effaith anffafriol ar y Gymraeg a sut? Ystyriwch, yn neilltuol, y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Os ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig yn cael effaith anffafriol ar y cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu fod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, nodwch unrhyw newidiadau y gellir eu gwneud i'r cynnig i leihau'r effaith hon.

Sut ydych chi'n meddwl y gellid newid y cynnig i gael effaith fwy cadarnhaol ar y cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

V1

Unrhyw sylwadau eraill:

## Atodiad 1 – Adroddiadau Estyn

**Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru**

Adroddiad ar Ysgol yr Archddiacon John Lewis

Ionawr 2017

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd
- Safonau darllen a llafaredd yn dda
- Safonau'r Gymraeg yn dda ar y cyfan
- Rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda mewn pynciau eraill
- Rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda
- Presenoldeb yn gwella
- Athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol
- Y ddarpariaeth ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda
- Yr ysgol yn amgylchedd diogel a gofalgar

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- Y pennaeth yn rhoi blaenoriaeth i bennu safonau uchel o ran cyflawniad a lles
- Gweithdrefnau i reoli perfformiad staff yn effeithiol
- Arweinwyr yn dadansoddi data'n drylwyr i nodi meysydd i'w gwella yn y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni
- Cynllun gwella'r ysgol yn ddogfen wedi'i hysgrifennu'n dda sy'n nodi blaenoriaethau ysgolion ar gyfer gwella'n briodol

- Gan yr ysgol bartneriaethau cryf a buddiol gydag ysgolion eraill
- Partneriaethau â rhieni yn gryf
- Yr ysgol yn rheoli ystod eang o adnoddau'n effeithiol i ddiwallu anghenion a diddordebau disgyblion
- Arweinwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn dda

Fodd bynnag:

- Nid yw arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth strategol ddigon effeithiol
- Nid yw uwch arweinwyr yn dosbarthu cyfrifoldebau'n ddigon da i gefnogi anghenion penodol yr ysgol
- Nid yw'r corff llywodraethu yn herio'r ysgol yn ddigon da nac yn sicrhau bod gan yr ysgol y polisïau diweddaraf ac yn bodloni'r holl ofynion statudol
- Nid yw gweithgareddau hunanarfarnu yn cael eu datblygu na'u gweithredu'n ddigon trylwyr i nodi'r holl wendidau mewn dysgu ac addysgu
- Ni ddefnyddir grantiau i wella deilliannau ar gyfer pob disgybl sy'n agored i niwed, yn enwedig y
- rhai mwy abl

**Argymhellion**

A1 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd mewn pynciau eraill

A2 Sicrhau bod pob athro yn cynllunio gweithgareddau i ddiwallu anghenion pob dysgwr, yn enwedig y rhai mwy abl

A3 Gwella trefniadau asesu gan gynnwys defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu a chymedroli asesiadau diwedd cyfnod

A4 Gwella'r defnydd o'r amgylchedd awyr agored i gefnogi dysgu yn y Cyfnod Sylfaen

A5 Sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn deall ac yn cyflawni eu rôl fel arweinwyr strategol

A6 Gwella trylwyredd ac ystod y gweithgareddau hunanarfarnu i fonitro safonau a darpariaeth yn fwy trylwyr

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

**Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Bracla**

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Bracla

Mehefin 2016

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn ddysgwyr brwdfrydig
- Yr ysgol yn darparu amgylchedd pwrpasol, gofalgar i ddisgyblion
- Safonau'r lles yn dda iawn
- Athrawon yn darparu cwricwlwm ysgogol ac amrywiol i ddisgyblion
- Rhan fwyaf o'r addysgu'n dda
- Adeilad yr ysgol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'n cefnogi dysgu disgyblion yn dda
- Darpariaeth awyr agored yr ysgol yn dda ac yn rhoi amrywiaeth o gyfleoedd cyffrous i ddisgyblion ddysgu Rhagolygon ar gyfer gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol, sy'n canolbwyntio'n bwrpasol ar godi safonau
- Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr a staff
- Llywodraethwyr yn herio'r ysgol i wella'n effeithiol
- Mae gan yr ysgol brosesau hunanarfarnu cadarn a chynhyrchiol iawn
- Mae arweinwyr yn defnyddio data perfformiad yn dda i olrhain cynnydd disgyblion
- Mae ganddi hanes da o wneud gwelliannau
- Mae partneriaethau strategol effeithiol iawn, yn enwedig gyda rhieni
- Mae arweinwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn dda i gefnogi gwelliannau

**Argymhellion**

A1 Gwella safonau ysgrifennu Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio medrau Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

**Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Coety**

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Coety

Mawrth 2018

**Crynodeb**

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn Ysgol Gynradd Coety yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn trin ei gilydd gyda gofal a pharch. Mae staff yn darparu profiadau dysgu diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu, ond nid oes digon o gyfleoedd o ansawdd da i ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol. Mae systemau effeithiol i ddisgyblion nodi agweddau ar eu gwaith y mae angen iddynt eu gwella, ac mae athrawon yn darparu adborth o ansawdd da i'w helpu i lwyddo.

Mae uwch arweinwyr wedi rheoli'r cynnydd yn nifer y disgyblion a'r symud i adeilad newydd yn dda. Maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i greu cymuned ofalgar sy'n ystyried ac yn diwallu anghenion disgyblion. Mae ganddynt weithdrefnau defnyddiol i ddadansoddi gwaith yr ysgol ac i nodi meysydd i'w datblygu, ond nid ydynt bob amser yn nodi pob maes yn gywir nac yn cynnwys staff wrth gynllunio ar gyfer gwella'n ddigon da.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Digonol ac angen gwella |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Digonol ac angen gwella |

**Argymhellion**

A1 Sicrhau bod yr holl staff yn cael cymorth ac adborth priodol i'w helpu i ddatblygu'n broffesiynol

A2 Cynyddu cyfranogiad staff yn y broses ar gyfer cynllunio gwella'r ysgol

A3 Darparu gwell cyfleoedd i ddatblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion yn y cyfnod sylfaen

A4 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd ar draws y cwricwlwm

**Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

**Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Llangrallo**

Adroddiad Estyn ar Ysgol Gynradd Llangrallo

Mawrth 2014

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- canlyniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn uwch na'r disgwyliadau;
- bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- ymddygiad disgyblion o ansawdd uchel;
- mae perthynas gadarnhaol rhwng disgyblion a staff;
- mae addysgu yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn gyson uchel;
- mae disgyblion yn llawn cymhelliant ac yn gwrtais, ac maent yn mwynhau'r ysgol; ac
- mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn rhannu gweledigaeth gref ar gyfer datblygiad yr ysgol yn y dyfodol;
- mae proses drylwyr o hunanarfarnu, sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol;
- mae cynllunio gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n agos ar godi lefelau cyflawniad disgyblion;
- mae gan yr uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu;
- mae partneriaethau gyda rhieni a'r gymuned leol yn gryf;
- mae gwaith tîm a chyfathrebu yn effeithiol ar bob lefel; ac
- mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda.

**Argymhellion**

A1 Gwella canlyniadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysgu ledled yr ysgol

A4 Gwella'r ardal tu allan ar gyfer disgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen

A5 Gwella presenoldeb ymhellach

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

**Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Croesty**

Ysgol Gynradd Croesty

Heol Llangrallo

Pencoed

Pen-y-bont

CF35 5LY

Ionawr 2015

**Ysgol Gynradd Croesty**

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Bernir bod Ysgol Gynradd Croesty wedi gwneud cynnydd da o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu yn dilyn ymweliad Estyn ym mis Ionawr 2015. Mae'r ysgol wedi'i thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn. Ni fydd rhagor o ymweliadau monitro gan Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn.

Yn gywir

Mererid Wyn Williams

Cyfarwyddwr Cynorthwyol

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Croesty

Tachwedd 2013

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- perfformiad ar ddiwedd asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf;
- mae safon bresennol y gwaith mewn llawer o lyfrau disgyblion yn dda;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais, ac mae ganddynt agwedd dda at ddysgu;
- mae ansawdd yr addysgu yn dda ac mae athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu diddorol a pherthnasol sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion;
- mae'r staff yn darparu lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion;
- mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle mae disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi; ac
- mae ystod eang o bartneriaethau yn cael effaith fuddiol ar gyflawniad disgyblion.

Fodd bynnag:

- dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn gyffredinol wedi ei gosod yn y 50% is o ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim;
- nid yw medrau ysgrifennu a rhifedd estynedig llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi'u datblygu'n dda ar draws y cwricwlwm;
- nid yw lefelau presenoldeb cystal ag y dylent fod; ac
- nid yw llawer o ddisgyblion yn ymwneud yn ddigonol ag asesu eu dysgu eu hunain.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan arweinwyr ysgolion weledigaeth glir ar gyfer datblygiad yr ysgol yn y dyfodol ac mae'r uwch dîm arweinyddiaeth sydd newydd ei ffurfio yn dechrau effeithio ar safonau ar gyfer pob dysgwr;
- mae gan arweinwyr yr ysgol ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, sy'n deillio o weithdrefnau hunanasesu effeithiol;
- mae pob aelod o staff yn glir ynghylch eu rolau wrth weithredu strategaethau gwella, sydd eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safonau dros y ddwy flynedd ddiwethaf; ac
- mae'r corff llywodraethu yn effeithiol o ran dwyn yr ysgol i gyfrif am y safonau y mae'n eu cyflawni.

**Argymhellion**

A1 Codi safonau fel bod mwy o ddisgyblion yn cyrraedd y lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2

A2 Gwella gallu disgyblion i gymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig a rhifedd ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

A3 Gwella presenoldeb disgyblion

A4 Mynd i'r afael â'r anghydbwysedd sylweddol o ran maint dosbarthiadau yn y Cyfnod Sylfaen

A5 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

**Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Llidiard**

Adroddiad Estyn ar Ysgol Gynradd Llidiard

Tachwedd 2017

**Crynodeb**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd disgwyliedig o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd yn dda mewn gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau hynod effeithiol mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae ansawdd yr addysgu yn gryf. Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn cynnig ystod eang o brofiadau diddorol i bob disgybl.

Mae'r disgyblion yn derbyn gofal, cymorth ac arweiniad da ac mae partneriaeth yr ysgol gyda'r rhan fwyaf o rieni yn gryf. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac fe'i cefnogir yn dda gan yr uwch dîm rheoli. Mae'r staff yn adnabod cymuned yr ysgol yn dda ac yn cydweithio fel tîm yn effeithiol i gyrraedd safonau uchel ar gyfer disgyblion. Mae'r corff llywodraethu yn cefnogi'r ysgol yn llwyddiannus.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

**Argymhellion**

A1 Gwella medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion cyfnod allweddol 2

A2 Gwella medrau gwneud penderfyniadau disgyblion fel y gallant wneud dewisiadau annibynnol ynghylch sut a beth maent yn ei ddysgu

A3 Sicrhau bod adborth athrawon yn dweud wrth ddisgyblion beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith

V1

A4 Datblygu dysgu awyr agored yn y cyfnod sylfaen

**Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael ag argymhellion yr arolygiad.

**Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Pencoed**

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Pencoed

Mai 2019

## Crynodeb

Mae lles disgyblion wrth wraidd gwaith yr ysgol ac mae pob aelod o staff yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod ethos teuluol gofalgar a chynhwysol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gyflawniad disgyblion, eu hagweddau at ddysgu, presenoldeb ac ymddygiad.

Mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai yn yr unedau adnoddau dysgu, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae disgyblion yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau'n frwdfrydig ac yn cyfrannu'n dda at fywyd yr ysgol.

Mae athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu i ennyn diddordeb ac ysgogi disgyblion i ddysgu. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn dda.

Mae gan yr ysgol berthynas gref a chefnogol iawn gyda rhieni. Mae'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd wedi creu amrywiaeth o strategaethau hynod lwyddiannus i gynnwys rhieni ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r pennaeth, ynghyd â'r dirprwy bennaeth ac uwch arweinwyr, yn darparu arweinyddiaeth gref a phwrpasol. Ynghyd â thîm ymroddedig a chydwybodol o staff, maent yn gweithio'n llwyddiannus i wella deilliannau disgyblion a chodi eu dyheadau.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

## Argymhellion

A1 Codi safonau mewn medrau iaith Gymraeg

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu’n ddysgwyr annibynnol

A3 Sicrhau bod yr holl athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n helaeth

**Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael ag argymhellion yr arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei strategaethau i ennyn diddordeb teuluoedd ym mywyd a gwaith yr ysgol i’w rhannu ar wefan Estyn.

**Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Penybont**

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Penybont

Mai 2019

## Crynodeb

Drwy Ysgol Gynradd Penybont, mae ethos meddylgar, gofalgar a chefnogol, lle mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael ei werthfawrogi. Mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol ac maent yn huawdl, yn gwrtais ac yn groesawgar i ymwelwyr. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn gweithio'n dda fel tîm ac yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu cymorth unigol, defnyddiol iawn i ddisgyblion a'u teuluoedd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu, maent yn awyddus i ddysgu ac yn mwynhau eu gwersi. Mae staff yn cydweithio'n dda i greu amgylchedd tawel lle mae disgyblion yn parchu oedolion a'i gilydd. Mae athrawon yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Un o gryfderau penodol yr ysgol yw'r gwaith i wella medrau siarad a gwrando disgyblion.

Mae'r pennaeth, ynghyd ag uwch arweinwyr, yn darparu arweinyddiaeth effeithiol a phwrpasol. Gyda'i gilydd mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer gwella ysgolion ac maent yn rhannu hyn yn llwyddiannus gyda phob aelod o staff. Gyda'i gilydd, maent yn gosod disgwyliadau uchel ac yn sefydlu cynlluniau strategol effeithiol sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion pob disgybl.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau Cymraeg disgyblion

A2 Galluogi disgyblion i gyfrannu'n effeithiol at wneud penderfyniadau

A3 Creu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ymwneud â sut a beth maent yn ei ddysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad.

**Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair**

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair

Mehefin 2016

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

- Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:
- Rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn
- Mae medrau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn
- Mae medrau meddwl disgyblion yn datblygu'n eithriadol o dda
- Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau darllen.
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn frwdfrydig iawn mewn gwersi
- Mae pob disgybl yn ymddwyn yn eithriadol o dda
- Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol ac mae rhai gwersi yn rhagorol
- Mae ethos Catholig cryf yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda iawn

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- Gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n rhannu hyn yn effeithiol gyda staff, llywodraethwyr a disgyblion
- Mae'n fodel rôl rhagorol sy'n cefnogi ac yn herio staff a disgyblion i wneud eu gorau
- Mae ymdeimlad da o waith tîm ar draws yr ysgol ac mae staff yn croesawu syniadau newydd yn gadarnhaol
- Mae llywodraethwyr yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau'n gydwybodol ac mae ganddynt ddiddordeb cryf ym mywyd beunyddiol yr ysgol
- Mae'r ysgol yn dangos ymrwymiad da i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol; er enghraifft, mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i wreiddio'n dda

- Ceir dadansoddiad trylwyr o bob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol, gan gynnwys lles disgyblion
- Mae gan yr ysgol ystod ardderchog o bartneriaethau, sy'n cael effaith sylweddol ar gyflawniad a lles disgyblion; er enghraifft, mae partneriaeth hynod effeithiol gyda Phrifysgol Caerwysg, sydd wedi helpu i wella medrau meddwl disgyblion

**Argymhellion**

A1 Codi safon ysgrifennu estynedig a chreadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion

A2 Gwella medrau disgyblion yn y Gymraeg

A3 Gwella presenoldeb disgyblion

A4 Sicrhau gwell cydbwysedd o gyfrifoldeb arweinyddiaeth ar draws y tîm arweinyddiaeth

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

**Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Tremaen**

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Tremaen

Tachwedd 2016

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

**Perfformiad presennol**

- Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:
- Mae'r ysgol yn gymuned gynnes, groesawgar a chynhwysol
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn dda, gyda mynegiant a dealltwriaeth
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda, yn siarad yn hyderus ac yn esbonio eu meddyliau'n glir
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae gan y rhan fwyaf agwedd gadarnhaol iawn at ddysgu
- Mae'r ysgol yn darparu cymorth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n trosglwyddo i'r ysgol sydd â lefel uchel o angen

Fodd bynnag:

- Nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal ag y gallent yn gyson
- Mae gormod o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim nad ydynt yn perfformio'n cystal â disgyblion eraill
- Mae presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 50% isaf am y tair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r tîm arweinyddiaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol fel cymuned gwbl gynhwysol
- Mae staff wedi sylweddoli nod yr ysgol o wella lles disgyblion sy'n agored i niwed yn effeithiol
- Mae cynllunio gwelliant yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau cenedlaethol fel y fframwaith llythrennedd a rhifedd

Fodd bynnag:

- Nid yw arweinwyr yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad disgyblion yn gyson yn effeithiol ac, o ganlyniad, nid y blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol bob amser yw'r rhai sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar godi deilliannau disgyblion.
- Nid yw arweinwyr yn monitro nac yn gwerthuso cynnydd nac effaith mentrau'n rheolaidd nac yn gadarn
- Mae'r ysgol yn rhy araf yn mynd i'r afael â diffygion yng nghyrhaeddiad disgyblion
- Mae'r ysgol wedi bod yn araf yn ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf

**Argymhellion**

A1 Codi safonau llythrennedd a datblygiad mathemategol disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen

A2 Codi safonau ar gyfer y disgyblion mwy abl

A3 Gwella medrau siarad ac ysgrifennu disgyblion yn y Gymraeg

A4 Gwella presenoldeb

A5 Sefydlu cynllun ysgol gyfan clir ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd

A6 Sicrhau bod athrawon yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ym mhob dosbarth ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella

A7 Cyflwyno systemau cadarn i sicrhau hunanarfarnu effeithiol a gwella'r ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

**Adroddiad Estyn- Ysgol Gymraeg Bro Ogwr**

Adroddiad ar Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

Mehefin 2017

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth neu gefnogaeth arnynt
- y staff yn darparu profiadau dysgu cynhwysfawr i'w disgyblion, sy'n ennyn eu diddordeb ac yn eu hysgogi'n dda
- y staff yn cymhwyso gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn fwriadus i'w cynlluniau gwaith er mwyn galluogi rhan fwyaf y disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd dros gyfnod
- y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol
- ansawdd yr addysgu yn effeithiol mewn llawer o ddosbarthiadau
- y gymuned yn un ofalgar lle mae blaenoriaeth amlwg i les ei disgyblion, gyda phob un yn dangos parch a gofal am ei gilydd
- yr ethos yn un cartrefol a chynhwysol

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth dros dro, gyda chefnogaeth a chyfraniad gwerthfawr yr uwch dîm rheoli, yn gosod cyfeiriad strategol pwrpasol ar gyfer datblygiad yr ysgol
- arweinwyr yn arfarnu ansawdd gwaith yr ysgol yn systematig trwy weithredu cylch o weithgareddau monitro effeithiol sydd wedi eu cynllunio'n dda
- bod cynllun datblygu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn nodi nifer o dargedau gwella perthnasol
- yr ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag amrywiaeth o bartneriaid mewn ffordd sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac sy'n ehangu eu profiadau dysgu yn dda

- yr ysgol wedi ei staffio'n effeithiol ac mae'n gwneud defnydd llwyddiannus o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu
- y staff cynorthwyol yn rhan annatod o'r tîm ac yn cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant y dysgu
- yr ysgol yn cynnig gwerth da am arian

**Argymhellion**

A1 Ymateb i'r materion iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolwg

A2 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion

A3 Gwella gallu disgyblion i weithio'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain

A4 Rhannu arferion gorau y Cyfnod Sylfaen ar draws y cyfnod

A5 Datblygu rôl strategol y llywodraethwyr i'w galluogi i herio'r ysgol yn effeithiol ynghylch ei pherfformiad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

**Adroddiad Estyn - Ysgol Gatholig yr Archesgob McGrath**

Adroddiad ar Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath

Tachwedd 2019

**Crynodeb**

Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath yn darparu amgylchedd gofalgar a chefnogol iawn, y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn falch o fod yn rhan ohono. Mae'r ethos Catholig, sy'n cydnabod bod 'pob plentyn yn unigolyn unigryw, yn werthfawr i Dduw', yn sylfaenol i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Maent yn dysgu dangos parch ac yn hyrwyddo rhinweddau yn cynnwys diolchgarwch a thosturi.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith pwrpasol gyda'u dosbarthiadau ac yn dangos gwybodaeth bynciol gref. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae ansawdd yr addysgu yn cyfrannu'n gadarnhaol at les a datblygiad personol disgyblion, yn ogystal â'r safonau y maent yn eu cyflawni.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae arweinwyr yr ysgol wedi llwyddo i gefnogi gwelliannau yn neilliannau, lles, ymddygiad a phresenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr wedi ymgynghori'n ddigon da â staff am newidiadau pwysig ac nid yw'r trefniadau gwneud penderfyniadau bob amser yn ddigon tryloyw. Mae hyn wedi cyfrannu at ysbryd isel ymhlith y staff ac wedi'i wneud yn anodd iddynt gyflawni eu dyletswyddau mor drylwyr ag o'r blaen.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

## Argymhellion

A1 Gwella ymgynghori a chyfathrebu, gan gynnwys ynglŷn â gwneud penderfyniadau

A2 Cynyddu manylder prosesau hunanwerthuso ar bob lefel

A3 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol

A4 Mynd i'r afael â'r mater diogelu a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

**Adroddiad Estyn - Ysgol Gyfun Brynteg**

Adroddiad ar Ysgol Gyfun Brynteg

Rhagfyr 2016

## Crynodeb

Dros y tair blynedd diwethaf, mae arweinyddiaeth sicr wedi arwain at welliannau i'r ddarpariaeth a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Dros y cyfnod hwn, mae perfformiad disgyblion yn Ysgol Gyfun Brynteg gan amlaf yn cymharu'n ffafriol â disgyblion mewn ysgolion tebyg. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion ac maent yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol ar gyfer dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn gwneud cynnydd addas. Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn dda. Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a chefnogol sy'n hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn foesgar ac yn gwrtais, ac yn ymddwyn yn dda.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut mae'n mynd i gynnal safonau uchel ac ansawdd y ddarpariaeth a mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Argymhellion

A1 Gwella safon medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella cywirdeb hunanarfarnu

A3 Darparu rheolaeth ariannol gadarn i fynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb

A4 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

**Adroddiad Estyn - Ysgol Gyfun Pencoed**

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol Ysgol Gyfun Pencoed yn dda oherwydd:

- Dros y pum mlynedd diwethaf, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion allweddol; mae perfformiad disgyblion yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg wedi bod yn uwch na deilliannau wedi'u modelu am bedair allan o'r pum mlynedd diwethaf
- Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu
- Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, ac mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan yn eu gwersi gyda brwdfrydedd
- Mae llawer o athrawon yn cynllunio eu gwersi i ddarparu ystod fuddiol o weithgareddau ysgogol, ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd
- Mae'r ysgol yn darparu ystod eang iawn o weithgareddau allgyrsiol sy'n denu nifer dda
- Mae gan yr ysgol ethos gofalgar iawn ac mae'n gymuned gwbl gynhwysol

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Y Tîm Arwain, staff a disgyblion yn rhannu gweledigaeth o'r ysgol sy'n helpu i ddatblygu diwylliant o ddyhead a chyflawniad
- Cefnogir y pennaeth yn effeithiol gan yr uwch dîm arwain, ac maent yn cyfathrebu'n dda â'r holl staff
- Mae llinellau atebolrwydd yn glir ac mae trefniadau rheoli perfformiad yn gryf
- Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn cyflawni eu rolau'n effeithiol
- Mae llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rôl fel cyfeillion beirniadol yn dda; mae ganddynt ddealltwriaeth gref o ddata perfformiad, ac maent yn herio ac yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol
- Mae hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gweithdrefnau gwella wedi'u hen sefydlu ac wedi'u cysylltu'n dda
- Mae partneriaethau effeithiol gydag ystod eang o ddarparwyr yn helpu i hyrwyddo lles disgyblion a gwella eu profiadau dysgu

**Argymhellion**

A1 Codi safonau mewn mathemateg

A2 Gwella'r deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl

A3 Cryfhau ystod a defnydd data a gwybodaeth, gan gynnwys tystiolaeth uniongyrchol, i fireinio hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

A4 Dileu'r diffyg yn y gyllideb

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

**Adroddiad Estyn - Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd**

Adroddiad ar Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

Mawrth 2015

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Y rhan fwyaf o'r disgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn gwneud cynnydd pynciol da
- Deilliannau disgyblion yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 am ddwy flynedd gyntaf yn yr ysgol yn gadarnhaol
- Ymddygiad disgyblion yn y gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda
- Bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol
- Y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn elfen gref o waith yr ysgol
- Trefniadau effeithiol yn yr ysgol i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn effeithiol

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Aelodau'r tîm rheoli uwch yn cyfleu disgwyliadau uchel i bob aelod o gymuned yr ysgol
- Patrwm o welliannau yn y deilliannau ers sefydlu'r ysgol
- Systemau cadarn ac effeithiol i sicrhau ansawdd a blaenoriaethau gwella cynhwysfawr
- Dealltwriaeth gadarn gan y tîm rheoli uwch o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella
- Cysylltiad clir rhwng y meysydd i'w datblygu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol, gan gynnwys cynnal a chodi safonau a gwella medrau dysgu
- Partneriaethau effeithiol gyda darparwyr eraill i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a sicrhau cost effeithlonrwydd yng nghwricwlwm yr ysgol

**Argymhellion**

A1 Gwella safonau mewn Saesneg a Chymraeg yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgu ychwanegol

A3 Cryfhau ansawdd a sicrhau cysondeb mewn adborth athrawon i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith

A4 Cryfhau systemau rheolaeth i sicrhau atebolrwydd llawn ym mhob maes.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Atodiad 2 – Rhestr y Rhanddeiliaid

- Y Corff Llywodraethol, rhieni, staff, gofalwyr, gwarcheidwaid a disgyblion Ysgol Gynradd Coety
- Ysgolion eraill o fewn y clwstwr/ardal:
  Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Archddiacon John Lewis, Ysgol Gynradd Bracla, Ysgol Gynradd Llangrallo, Ysgol Gynradd Croesty, Ysgol Gynradd Llidiard, Ysgol Gynradd Pencoed, Ysgol Gynradd Penybont, Ysgol Gynradd Tremaen, Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath, Ysgol Brynteg, Ysgol Gyfun Pencoed, Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd
- Awdurdodau cyfagos
- Yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdodau Esgobaethol Catholig
- Gweinidogion Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Aelodau'r Cynulliad yr Etholaeth a'r Rhanbarth (ASau) ac Aelodau Seneddol (AS) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Cynghorau Tref a Chymuned sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion:
  Cyngor Cymuned Bracla, Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Cymuned Coety Uchaf, Cyngor Cymuned Llangrallo Uchaf, Cyngor Cymuned Llangrallo Isaf, Cyngor Cymuned Castellnewydd Uchaf, Cyngor Tref Pencoed, Cyngor Cymuned Merthyr Mawr ??
- Darparwyr meithrin annibynnol neu wirfoddol sy'n gwasanaethu'r ardal
- Tîm Gofal Plant CBS Pen-y-bont ar Ogwr/Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle bo'n bresennol

- Aelodau'r Cabinet
- Y Bwrdd Rheoli Corfforaethol
- Aelodau Ward
- Rheolwr Grŵp CBSP, Cynhwysiant
- CAMHS, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, Tîm Iechyd Meddwl Sylfaenol, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.
- Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.
- Pediatregwyr, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.
- Therapi Galwedigaethol (ThG) GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.
- Gwasanaeth Ffisiotherapi: GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.
- Seicolegwyr Addysg. Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- SNAP Cymru
- Barnardo's Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg